| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 5ed Medi 2024 |
| **TEITL YR EITEM** | Archwilio Cymru - Crynodeb Archwilio Blynyddol 2023 a Chynllun Archwilio Manwl 2024 Cyngor Gwynedd |
| **AMCAN** | Cyflwyno Crynodeb Archwilio Blynyddol 2023 a Chynllun Arwchilio Manwl Archwilio Cymru ar gyfer y Cyngor yn 2024 |
| **ARGYMHELLIAD** | Gofynnir i'r Aelodau gynnig sylwadau ar y ddogfen a'i derbyn. |
| **AWDUR** | Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor/Alan Hughes, Archwilydd Arweiniol, Archwilio Cymru |

## 1. CEFNDIR

1.1. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio swyddogaeth i adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol y Cyngor. Fel rhan o'r swyddogaeth hon mae disgwyliad i ystyried adroddiadau cyrff adolygu allanol megis Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yng nghyd-destun gwaith y Cyngor.

## 2. CYNLLUN ARCHWILIO MANWL 2024

2.1. Er mwyn cyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol mae Archwilio Cymru yn cwblhau gwaith bob blwyddyn sydd ynghlwm a'r dyletswyddau canlynol - Archwilio Cyfrifon, sicrhau Gwerth am Arian, gwneud Gwelliannau Parhaus a chydymffurfio a'r Egwyddor Datblygu Gynaliadwy.

2.2. Fe gwblheir prosiectau penodol hefyd gan ddefnyddio gwybodaeth sydd wedi ei gasglu gan reoleiddwyr eraill megis Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn. Ceir crynodeb o ganfyddiadau a'r casgliadau ar gyfer y gwaith a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn y Crynodeb Archwilio Blynyddol 2023 (**Atodiad 1**).

2.3. Atodir y Cynllun Archwilio Manwl ar gyfer 2024 fel **Atodiad 2 .** Mae'n disgrifio'r rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn yn unol â'r dyletswyddau a nodir yn 2.1 uchod.

2.4. Bydd swyddogion Archwilio Cymru yn cyflwyno'r eitem i'r Aelodau a bydd cyfle i ofyn cwestiynau ar sail y cynnwys.